trobwynt
Rhannu'r ffydd Gristnogol gyda'n hieuenctid
Cylchlythyr
Rhifyn 10
Mai 2009

Rachel ym Melffast!

Bu Rachel ym Melffast am ddeuddydd yn ceisio perswadio pobl i ddod i weithio gyda ni yn y Beach Mission yn Nhudweiliog dros yr haf. Gwnaed y cysylltiad gan Erika Frank (Eglwys Botwnnog) sy'n hen ffrind i Rachel ac sy'n gaplan ym Mhrifysgol Belffast. Cafodd Rachel amser ardderchog yn rhannu gyda'r myfyrwyr ac yn dod i nabod rhai ohonyn nhw. Mae rhwng 8 a 10 o bobl yn bwriadu dod draw i ymuno â'r tîm lleol yn y gwaith ar y traeth yn yr haf.

Hoffem i chi Weddïo y bydd Duw'n arwain y bobl iawn i'r tîm ac y bydd y gwaith cenhadol yn dwyn ffrwyth ym mywydau'r tîm a bywydau'r plant a'r bobl ifanc y byddwn ni'n cyfarfod â nhw.

Ready Steady Cook!!

Rŷn ni wedi bod yn cael amser ardderchog yn CIC Llithfaen yn ddiweddar a chriw gwych o bobl ifanc yn llawn brwdrydedd bob wythnos. Un o'r uchafbwyntiau oedd noson Ready Steady Cook. Ann Roberts a Lis James oedd yn gyfrifol am y sesiwn goginio. Llwyddodd pob un o'r bobl ifanc i greu brechdan arbennig a phwdin a chafodd Peter James y fraint o ddewis yr enillydd. Ar ddiwedd y noson, bu John yn sôn am 'Sut y gallwn ni drystio'r Beibl'. A rhoddodd her i'r bobl ifanc i ddarllen y Beibl.



Hoffem i chi Weddïo: Y bydd y bobl ifanc hyn yn cael gafael ar Dduw ac yn dechrau darllen ei Air drostyn nhw'u hunain.

Hoffech chi gefnogi trobwynt ?

Cysylltwch â'r Ysgrifennydd
Tabor
Llithfaen
Pwllheli
LL53 6NL Rhif Ffôn: 01758 750202

Penwythnos gwerthfawr

Cynhaliodd Rachel, Heidi Bakewell (Botwnnog) a Zoe Jones (Coleg y Bala) benwythnos i ferched yng Ngholeg y Bala ar benwythnos cyntaf Mai. Roedd yn llwyddiant mawr a chafwyd cwmni 15 o ferched yn cynnwys rhai o Borthmadog, Morfa Nefyn a Botwnnog. Cafodd y genod hwyl efo sesiwn karaoke, noson golur, ffynnon siocled a ffilmiau. Gawson nhw sesiynau cadw'n heini gyda Heidi hefyd, yn cynnwys cyfle i nofio yn y pwll a thrip siopa i'r Bala!

'Gwerthfawr' oedd thema'r penwythnos a bu Rachel, Zoe a Heidi'n arwain sesiynau'n esbonio wrth y genod eu bod yn werthfawr yng ngolwg Duw a bod y greadigaeth a'r ffaith bod Crist wedi dod i'r ddaear yn profi hynny. Roedd pawb wrth eu bodd â'r penwythnos arbennig yma.

Hoffem i chi Weddïo: Bod yr holl ferched a ddaeth i'r encil yn cofio beth a ddysgon nhw a'u bod yn sylweddoli eu bod yn werthfawr i Dduw ac yn byw eu bywydau yng ngoleuni hynny.

Gwasanaeth yn Edern

Cymerodd John ei wasanaeth Cymraeg cyntaf ar ei ben ei hun yn Ysgol Edern! Roedd Rachel i ffwrdd ym Melffast ac roedd John yn nerfus iawn cyn mynd. Ond mi aeth popeth yn iawn ar y diwrnod a dim ond un neu ddau o eiriau Cymraeg wnaeth John eu anghofio. Soniodd John am stori'r Dyn Ifanc Cyfoethog a bu'n ystyried beth yw'r peth pwysicaf yn ein bywyd ni.

Hoffem i chi Weddïo: Y bydd Cymraeg John yn dal i wella ac y bydd plant Ysgol Edern yn dal i feddwl beth yw'r peth pwysicaf yn eu bywydau.